Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, 10fed Mehefin, 2009 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.05 pm

Presennol: Y Maer y Cyng Charlotte Leadbeater, y Cyng Edward Thomas, y Cyng Colin Jenkins, y Cyng Ieuan Gwyn, y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Chris Parish, y Cyng Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau: Y Cyng Hugh Towns, y Cyng Julia Jones, y Cyng Ros Bellamy

Cof 79 / Mehefin / 09 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid
Cynigiwyd y Cyng Chris Parish gan y Cyng Colin Jenkins. Eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid. Derbyniodd y Cyng Chris Parish yr enwebiad.

Cof 80 / Mehefin / 09 Ethol is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid
Cytunwyd i adael yr eitem hon tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid.

Cof 81 / Mehefin / 09 Cyfrifon i'w talu.

WCVA (Gweinyddiaeth Mai 2009)	£	34.79
Y Cyng Charlotte Leadbeater (Arolwg Parc Penlan)	£	41.20
Morgan & Morgan (ffôn i'r swyddfa)	£	48.70
Treuliau'r Clerc (tâl post)	£	62.77
Chubb Fire Ltd (gwasanaethu'r diffoddwyr tân)	£	34.50
Orchardweb (diweddaru'r wefan)	£	30.00

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

Cof 82 / Mehefin /09 Incwm a Dderbyniwyd ym mis Mai 2009

Arian Parod / Sieciau (Derbynebau Cinio'r Maer)	£	882.00
Arian Parod / Sieciau (Derbynebau Cinio'r Maer)	£	78.00

Cof 83 / Mehefin / 09 Balansau'r Cyfrifon
Cafodd yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor ei gofnodi a'i **Dderbyn**:

CYFRIF CYFREDOL CTLl	ar	(31.5.09)	£ 19,657.64
CYFRIF CADW CTLl	ar	(31.3.09)	£ 37,146.66 (a llog)
Cyfrif Treuliau'r Maer CTLl		(20.5.09)	£ 644.57

Mae holl ddogfennaeth 2008-9 ar gyfer yr archwiliad ariannol bellach gyda'r archwilydd mewnol.

Cof 84 / Mehefin / 09 Materion Ariannol Eraill

1 Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
Roedd y Swyddog Cyllid wedi llunio rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
Cytunodd y cynghorwyr i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r rhagolygon

2. Cyfrif Treuliau'r Maer 2009-10.
Cynigiwyd gan y Cyng Edward Thomas y dylid trosglwyddo £2,000 o'r cyfrif cyfredol i Gyfrif y Maer fel mesur dros dro. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 85 / Mehefin / 09 Gohebiaeth sy'n Gysylltiedig â Chyllid

1. Mrs Hillier parth. Y Canolfan Groeso. Cadarnhawyd argymhellion y Pwyllgor Cynllunio.
2. Adroddodd y Swyddog Cyllid fod y Swyddog Technegol wedi cyflwyno cais am dâl am 12 awr o oramser. Cynigodd y Cyng Edward Thomas y dylid talu Mr Davies am yr oriau hyn. Eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
3. Clwb Garddio Llandeilo. Cynigwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace y dylid rhoi £500 i'r Clwb i brynu pridd a deunydd eraill ar gyfer y prosiect Llandeilo yn ei Blodau. Roedd pawb o blaid. Byddai'r Cyng Edward Thomas a'r Cyng Julia Jones yn cysylltu â'r Clwb ynglŷn â chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Cof 86 /Mehefin / 09 Nid oedd Adroddiad y Swyddog Technegol yn cynnwys Agweddau Ariannol

Cof 87/ Mehefin / 09 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau arbennig yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Adroddwyd bod y fainc wrth ymyl y pafiliwn tenis wedi torri a bod y contractwr TRJ wedi cael gwared ar ddarnau o'i hymylon. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mr Gerwyn Thomas i ofyn a fyddai CSC yn talu am slatiau newydd i adnewyddu'r fainc.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15pm